Profion Rhifedd Cenedlaethol

# GWEITHDREFNOL

# 6CG14

**Enw cyntaf** ____________________

**Cyfenw** ____________________

**Ysgol** ____________________

**Dosbarth** ____________________

**Dyddiad geni** ( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( )

**Dyddiad y prawf** ( ) ( ) (0) (5) (2) (0) (1) (4)

**Cyfanswm y sgôr** ( ) (uchafswm 35)



117569

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**1** Adiwch 76 a 34

---

**2**

$9 \times 7 = \square$

$6 \times \square = 72$

---

**3** Rhowch gylch o amgylch y rhif lle mae'r 4 yn cynrychioli **4 o ddegau**.

40 008    6043    7431


9054    14 568

Nawr ticiwch (✓) y rhif lle mae'r 4 yn cynrychioli **4 o filoedd**.

40 008    6043    7431

9054    14 568

**4** Mesurwch hyd y llinell hon.



Rhowch eich ateb mewn **cm**. [ ] cm

Nawr rhowch eich ateb mewn **mm**. [ ] mm

1m

**5** Mae gan Cerys 600 o farblis.

Mae'n eu rhannu'n gyfartal rhwng 20 o bobl.

Faint o farblis mae pob person yn eu cael?

[ ] o farblis

1m

**6** **Tynnwch** 4.3 o 13.1

[ ]

1m

CYFANSWM

8m

**7**

## Y pellter mewn milltiroedd ar hyd y ffordd rhwng lleoedd yng Nghymru

| | Bangor | Caerfyrddin | Abertawe | Y Rhyl |
|---|---|---|---|---|
| Bangor | | 133 | 159 | 31 |
| Caerfyrddin | 133 | | 28 | 136 |
| Abertawe | 159 | 28 | | 173 |
| Y Rhyl | 31 | 136 | 173 | |

Pa ddau le yw'r **pellaf** oddi wrth ei gilydd?

[ ] a [ ]

Mae Mr Jones yn gyrru o **Gaerfyrddin** i **Abertawe**.

Wedyn, mae'n gyrru o **Abertawe** i **Fangor**.

Faint o filltiroedd mae'n eu gyrru i gyd?

[ ] o filltiroedd

---

**8** Beth yw $\frac{3}{5}$ o 60?


[ ]

**9** Cwblhewch y tabl gan ddefnyddio'r cloc **24-awr**.


| | | |
|---|---|---|
| Hanner awr wedi chwech | Bore | 06:30 |
| Chwarter wedi deg | Bore | |
| Hanner awr wedi pedwar | Prynhawn | |
| Chwarter i wyth | Gyda'r nos | |

2m

**10** At ba rifau mae'r saethau'n pwyntio?




1m





1m

CYFANSWM

7m

**11** Beth yw **arwynebedd** y petryal hwn?





cm$^2$

1m

---

**12**




Mae'r bag o datws yn pwyso

kg

1m

Mewn cilogramau a gramau, mae hyn yn

kg a g

1m

**13** Mae athro'n dweud:

> Meddyliwch am rif.
>
> Lluoswch y rhif â 2,
>
> wedyn adiwch 6

Ateb Ellie yw 16

Pa rif roedd Ellie'n meddwl amdano?


[ ]

1m

---

**14** **Talgrynnwch** bob degolyn i'r rhif cyfan agosaf.

Mae un wedi'i wneud i chi.




1m

CYFANSWM

5m

**15** Cwblhewch y tabl.

**Y tymheredd yn Abertawe ac yn Sydney un diwrnod fis Rhagfyr diwethaf**

| | Abertawe | Sydney | Y gwahaniaeth rhwng y tymheredd |
|---|---|---|---|
| Y tymheredd yn ystod y dydd | –1°C | 25°C | °C |
| Y tymheredd yn ystod y nos | °C | 18°C | 21°C |

**16** Ysgrifennwch yr hydoedd hyn yn eu trefn.

50 milltir    50 cm    50 km    50 modfedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **y byrraf** | | | **yr hiraf** |

**17** Rhannwch 3015 â 15


**18** Cwblhewch y tabl ffracsiynau, degolion a chanrannau hwn.

Ysgrifennwch y ffracsiwn mor syml â phosibl.

| Ffracsiwn | Degolyn | Canran |
|---|---|---|
| $\frac{1}{4}$ | 0.25 | 25% |
| | | 60% |
| $\frac{1}{20}$ | | % |

2m

**19** Mae'r rhifau ar y bocsys yn dangos faint o fatsys sydd ym mhob bocs.




Beth yw nifer **cymedrig** y matsys.

o fatsys

2m

CYFANSWM

8m

**20**

**Rysáit crempog**

2 wy

200 gram o flawd

$\frac{1}{2}$ litr o laeth

Mae Owen yn gwneud crempogau ac yn defnyddio 5 wy.

Mae angen [ ] gram o flawd a [ ] litr o laeth arno.

**21**

**Siop Esgidiau Mawr**



Roedden nhw'n £10

Nawr gostyngiad o 25%

**Siop Traed Hapus**



Roedden nhw'n £12

Nawr gostyngiad o $\frac{1}{3}$


Yn mha siop mae'r esgidiau glaw rhataf, a faint yn rhatach ydyn nhw?

Maen nhw [ ] yn rhatach yn siop [ ]

**22** Yn nosbarth 6K, y gymhareb **merched** i **fechgyn** yw 2 : 3

Cwblhewch y siart cylch i ddangos y gymhareb.

**Plant yn nosbarth 6K**




1m

**23** Gwariodd Gethin £12 ar ddefnydd i wneud bagiau.

Mae'n gwneud 20 o fagiau ac yn eu gwerthu nhw i gyd am £1.75 yr un.

Faint o **elw** mae'n ei wneud i gyd?

£

2m

CYFANSWM

7m